



“**SICRHAU NEWID
GO IAWN
I GYMRO**”

**PLAID GEIDWADOL CYMRU
MANIFFESTO ETHOLIAD CYNULLIAD
CENEDLAETHOL CYMRU 2016**



**Ceidwadwyr
Cymreig**

**Welsh
Conservatives**



**BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG
NGHYMRU YN GWNEUD Y CANLYNOL:**

- ✔ **DIOGELU'R GIG** drwy sicrhau mwy o fuddsoddiad yn ein gwasanaeth iechyd bob blwyddyn.
- ✔ **CREU MWY O SWYDDI** drwy gefnogi busnesau bach a gwella seilwaith.
- ✔ **DARPARU ADDYSG O'R RADD FLAENAF** drwy drawsnewid hyfforddiant athrawon a gwario mwy yn yr ystafell ddosbarth.
- ✔ **CYNNIG SICRWYDD AC URDDAS I BOBL HŶN** drwy osod cap ar gostau a diogelu £100,000 o asedau i'r rheini mewn gofal preswyl.
- ✔ **TREBLU GOFAL PLANT AM DDIM I 30 AWR YR WYTHNOS** sicrhau cymorth fforddiadwy a hygyrch i deuluoedd.

#SicrhauNewidGolawn

Mae yna lawer o bethau sy'n gwneud Cymru yn genedl odidog, gan gynnwys diwylliant unigryw, cymunedau lleol ffyniannus, busnesau bach dynamig ac unigolion sy'n gweithio'n galed bob dydd ar ran eu teuluoedd. Ond, ar ôl 17 mlynedd o'r Blaid Lafur wrth y llyw, mae ein cenedl wedi cael ei llesteirio a'i gadael ar ôl, a hynny drwy law plaid sydd wedi rhedeg allan o syniadau, rhedeg allan o stêm a rhedeg allan o amser.

Wrth i economi'r DU fynd o nerth i nerth a pharhau i greu mwy o swyddi, mae Cymru mewn perygl o fynd yn angof. Wrth i Lywodraeth Geidwadol y DU barhau i godi safonau yn ein hysgolion, mae'r system addysg yng Nghymru yn llusgo'i thraed. Ac, wrth i'r Ceidwadwyr benderfynu buddsoddi mwy yn y GIG yn Lloegr bob blwyddyn; yng Nghymru caiff ein gwasanaeth iechyd ei amddifadu o'r adnoddau sydd eu hangen arno er mwyn gofalu am ein pobl.

Ond nid oes rhaid iddi fod fel hyn. Nid oes rhaid i ni fod yn wlad lle mae rhai ardaloedd yn mynd o nerth i nerth tra bod eraill yn cael eu gadael ar ôl. Dim ond un sedd i ffwrdd o golli rheolaeth o'r Cynulliad mae'r Blaid Lafur, felly ddydd Iau 5 Mai gallwn gael y newid go iawn sydd ei angen ar Gymru, gan ddileu'r rhwystrau i achub ar gyfleoedd, a sicrhau bod y wlad hon yn dod yn Un Genedl wirioneddol.

Mae hynny'n golygu pleidleisio dros y blaid â syniadau newydd sbon; plaid pobl sy'n gweithio; y blaid sydd â'r ffocws a'r ddisgyblaeth i gyflawni er budd pobl Cymru: y Ceidwadwyr Cymreig.

Gyda chynllun ar gyfer newid go iawn, gall y dalent a'r creadigrwydd sydd gan ein pobl ifanc flaguro, ynghyd ag angerdd dwys ein hentrepreneuriaid ac uchelgais ddiamheuol ein cenedl.

Mae ein cynllun ni yn deall pwysigrwydd economi gref er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus lleol allweddol.

Mae'n gynllun fydd yn helpu busnesau bach i greu mwy o swyddi, gwella ein seilwaith a buddsoddi yng Nghymru. Mae'n gynllun fydd yn helpu pobl sy'n gweithio drwy ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad i ostwng trethi a buddsoddi mewn mwy o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio.

Mae'n gynllun sy'n cynnig y dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn drwy fuddsoddi yn ein hystafelloedd dosbarth a'n hathrawon. Ac mae'n gynllun sy'n diogelu ein gwasanaeth iechyd amhrisiadwy - buddsoddi ynddo bob blwyddyn, lleihau amseroedd aros ysbytai, a chyflwyno Cronfa Cleifion Canser benodol.

Mewn geiriau eraill, mae'n gynllun, cynllun y Ceidwadwyr Cymreig, i roi sicrwydd i chi a'ch teulu, ar bob cam o'ch bywyd.



Andrew RT Davies
Arweinydd Plaid Geidwadol
Cymru yn y Cynulliad
Cenedlaethol



Y Gwir Anrh. David Cameron AS
Prif Weinidog y DU ac Arweinydd
y Blaid Geidwadol



Y Gwir Anrh. Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



SICRWDYDD ECONOMAIDD I GYMRU

Gall economi Cymru wneud cymaint yn well. Ledled y DU, mae'r economi wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chynllun economaidd hirdymor Llywodraeth Geidwadol y DU yn talu ar ei ganfed. Fodd bynnag, ar ôl 17 mlynedd o arweinyddiaeth Lafur ddiuchelgais, mae Cymru ar ei hôl hi gyda phwerau datganoledig na chânt eu defnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau ffyniant economaidd.

Ers y newid i Lywodraeth y DU yn 2010, mae dros 100,000 o swyddi newydd wedi cael eu creu yn y sector preifat yng Nghymru, tra bod y nifer fwyaf erioed o bobl mewn gwaith. Fodd bynnag, mae allbwn economaidd Cymru wedi dirywio o gymharu â rhannau eraill o'r DU ac, yng Nghymoedd Gwent, dim ond 54.8% o gyfartaledd y DU ydyw, sy'n pwysleisio'r angen i sicrhau newid go iawn.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn datblygu cyfleoedd i greu cymdeithas fwy entrepreneuriaidd, heb osod rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu breuddwydion busnes.

Mae economi gref yn hanfodol er mwyn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus, a chynnig cyfleoedd i bobl gamu ymlaen mewn bywyd. Byddwn yn creu mwy o swyddi; drwy gefnogi busnesau bach a gwella seilwaith. Byddwn yn helpu Cymru i ddechrau adeiladu unwaith eto gyda phwyslais newydd ar weithgynhyrchu. A byddwn yn sicrhau newid go iawn drwy roi mwy o gyfleoedd i bobl nag erioed o'r blaen, gan ddi-ddymu cyfyngiadau annheg y Blaid Lafur ar gymorth, tra'n creu system drafnidiaeth fwy integredig, er mwyn cysylltu pobl ag ardaloedd lle gwelir twf swyddi.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMRU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Ysgogi economi Cymru

- ✓ Diddymu ardrethi busnes i bob busnes bach a thapro rhyddhad ar werthoedd ardrethol sydd rhwng £12,000 a £15,000, gan gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a chefnogi entrepreneuriaid.
- ✓ Sefydlu corff a arweinir gan ddiwydiant er mwyn annog gweithgarwch datblygu busnes a buddsoddi yng Nghymru.
- ✓ Diddymu cap oedran annheg Cymru - a'r rhwystrau daearyddol iddo i gymorth cyflogaeth - gan sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb.
- ✓ Cyflwyno grantiau cymell cyflogaeth er mwyn cynnig cyfleoedd gwaith 12 mis i geiswyr gwaith o bob oedran, gan greu mwy o swyddi.
- ✓ Sicrhau bod cynlluniau cymorth cyflogaeth Llywodraeth Cymru hefyd ar gael i'r rheini sy'n cael budd o gymorth Llywodraeth y DU.
- ✓ Cefnogi'r broses o weithredu cyflog byw Llywodraeth y DU, gan olygu y bydd 150,000 o bobl sy'n gweithio yng Nghymru ar eu hennill erbyn 2020, sef tua 12% o'n gweithlu.
- ✓ Sefydlu strategaeth weithgynhyrchu glir ac uchelgeisiol sy'n briodol i'n heconomi busnesau bach a chanolig.
- ✓ Sefydlu banc datblygu rhanbarthol newydd, gan ddiwygio'r cymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, gyda mynediad lleol at gyllid i fusnesau bach.



Byddwn yn creu o leiaf 50,000 o swyddi, yn cefnogi busnesau bach, ac yn creu system drafnidiaeth integredig.



Andrew RT Davies

- ✓ Diwygio ardrethi busnes, gan rannu lluosydd Cymru er mwyn gwneud busnesau llai yn fwy cystadleuol.
- ✓ Anelu at sicrhau bob pob rhan o Gymru yn gallu cael gwasanaeth band eang a ffôn symudol tra-chyflym erbyn 2019, gan wella cysylltedd.
- ✓ Ceisio datganoli sbardunau economaidd allweddol i'r gogledd, gan sefydlu Pwerdy Gogleddol er mwyn ysbrydoli twf economaidd a arweinir yn lleol.
- ✓ Cefnogi cynnig Bargaen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, gan wireddu potensial economaidd yr ardal.
- ✓ Cyflwyno cymorth dilynol i'r rheini sy'n buddsoddi yng Nghymru, er mwyn cynorthwyo cwmnïau newydd, cadw swyddi medrus a datblygu cadwyni cyflenwi lleol.
- ✓ Cyflwyno miloedd o brentisiaethau hyblyg, gyda mynediad at gymysgedd o fusnesau bach a mawr, gan gynyddu'r niferoedd sy'n eu dewis a hyrwyddo cydbwysedd rhwng y rhywiau.
- ✓ Atgyfnerthu'r gydberthynas rhwng y sector addysg, y sector cyflogaeth a'r sector busnesau lleol, gan gyflwyno elfen busnes ac entrepreneuriaeth i lawer o gyrsiau galwedigaethol.
- ✓ Sicrhau gwell mynediad at y broses gaffael gyhoeddus i gwmnïau bach, elusennau a sefydliadau gwirfoddol, gan flaenoriaethu mynediad i sefydliadau o Gymru.
- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU i greu canolfan arloesi newydd, gan helpu i sicrhau lle Cymru fel arweinydd byd ym maes gwyddoniaeth.
- ✓ Sefydlu 'Canolfan Busnesau Bach' Llywodraeth Cymru a fydd yn craffu ar bolisiau Llywodraeth Cymru o ran eu heffaith ar gwmnïau bach.

YR ISADEILEDD TRAFNIDIAETH

Byddwn yn blaenoriaethu datblygiadau trafndiaeth sy'n creu gwell cysylltiad rhwng pobl a chyfleoedd economaidd a chymdeithasol, yn lleihau ynysu gwledig ac yn cyflwyno seilwaith sy'n arbed amser ac arian i bobl, fel rhan o weledigaeth hirdymor.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMRU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Darparu trafndiaeth integredig

- ✓ Sefydlu corff hyd braich newydd er mwyn creu system drafnidiaeth integredig a sicrhau bod seilwaith yn cael ei wella mewn modd cyson dros Gymru gyfan.
- ✓ Aseu ac ailflaenoriaethu Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru, gan weithredu strategaeth hirdymor newydd ar gyfer ein rhwydweithiau ffyrdd, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- ✓ Cefnogi cynllun teithio cardiau deallus newydd, a ddefnyddir ar wahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru.

FFYRDD

- ✓ Cynnal ymgyngoriad ar gynyddu'r terfyn cyflymder i 80mya ar yr M4 a'r A55 er mwyn cael Cymru yn symud.
- ✓ Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i haneru'r tollau ar groesfannau pont Hafren, a gweithio gyda hi ar eu dyfodol tymor hwy.



- ✓ Cefnogi'r cynnig i gael gwared ar y manau casglu tollau ar groesfannau pont Hafren, gan alluogi gyrwyr i ddod i mewn i Gymru heb unrhyw oedi.
- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU i wella cysylltedd trawsffiniol a seilwaith trafndiaeth cysylltiedig.
- ✓ Datblygu ffordd gyswllt Bae Caerdydd fel rhan o Fargen Ddinesig Caerdydd, ar y cyd â chynlluniau ar gyfer Metro De Cymru.
- ✓ Dechrau gweithio ar Ffordd Liniaru'r M4 o fewn 12 mis i ffurfio llywodraeth.
- ✓ Datblygu cynlluniau i sicrhau cyllid ar gyfer deoli'r A40 i Abergwaun.
- ✓ Gwella'r llif traffig ar yr A55, gan sicrhau gwell cysylltedd ledled y gogledd.
- ✓ Ychwanegu ffordd osgoi Dinas Powys at y Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol
- ✓ Cynnal adolygiad mwy diweddar o ddiogelwch ar yr A44.
- ✓ Comisiynu astudiaeth o effaith cael gwared ar dollau ar Bont Cleddau.
- ✓ Dwyn ymlaen gynlluniau i adeiladu trydedd bont dros Afon Menai, a fyddai'n lleihau'r tagfeydd traffig i Ynys Môn ac oddi yno.

RHEILFFYRDD

- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU ar drydaneiddio Prif Linell De Cymru a Llinellau'r Cymoedd cyn gynted â phosibl a chefnogi trydaneiddio Llinell Gogledd Cymru.
- ✓ Sicrhau tendr teg a chystadleuol ar gyfer masnachfaint rheilffordd Cymru a'r Gororau ar ôl 2018 sy'n cyflwyno cerbydau modern, cysylltedd mwy integredig a mwy o gapasiti bob blwyddyn.
- ✓ Cynnig cynigion mynediad agored gan y sawl nad oes ganddynt fasnachfaint ar y prif linellau rheilffyrdd yn y de a'r gogledd.
- ✓ Comisiynu astudiaeth ddichonoldeb ar ymestyn Metro De Cymru ymhellach i'r gorllewin.

- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU ar gyflwyno cysylltiadau rheilffordd newydd i Ogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys gwell mynediad i Feysydd Awyr Manceinion a Lerpwl.

AWYR

- ✓ Uwchraddio Maes Awyr Caerdydd a sicrhau buddsoddiad preifat ynddo.
- ✓ Gweithio gyda Maes Awyr Caerdydd er mwyn denu mwy o gyrchfannau.
- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn cyflwyno'r gainc reilffordd i Faes Awyr Heathrow, gan wella amseroedd teithio i faes awyr prysuraf y DU.
- ✓ Adolygu effeithiolrwydd sybsideiddio'r cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn i economi Cymru.

BYSIAU

- ✓ Ailgyflwyno'r cyllid a wrthodwyd i'r Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau, gan ymestyn llwybrau trafndiaeth gyhoeddus, cynyddu cysylltedd a mynd i'r afael ag ynysu gwledig.
- ✓ Diogelu cardiau bws am ddim ac ystyried ehangu'r ddarpariaeth hon i drafnidiaeth gymunedol.

BEICIO

- ✓ Ystyried llwybrau beicio mewn cynlluniau ar gyfer seilwaith ffyrdd a datblygiadau preswyl mawr.
- ✓ Lansio ymgyrch gyhoeddus i hyrwyddo beicio mwy diogel ac annog beicio i'r gwaith.



TWRISTIAETH

Mae'r diwydiant twristiaeth yn cyfrannu gwerth £5.1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru ac mae'r hyn a gynigir gan ein cenedl ymhlith yr arlwy mwyaf unigryw sydd ar gael i ymwelwyr. Eto i gyd, am ormod o amser, mae strategaeth dwristiaeth y Blaid Lafur wedi methu â rhoi digon o gymorth i weithredwyr bach ac nid yw wedi creu brand clir i Gymru. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwireddu potensial twristiaeth drwy gynyddu ei heffaith economaidd a chymdeithasol, ynghyd â hyrwyddo Cymru yn well yn y DU a thu hwnt.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- ✓ Cyflwyno cronfa wedi'i chapio ar gyfer busnesau twristiaeth bach a chanolig, gan eu helpu i reoli biliau TAW a chynnal swyddi o ansawdd.
- ✓ Gweithio gyda diwydiant er mwyn marchnata Cymru yn y DU a thu hwnt, gan wireddu holl botensial ein cenedl fel cyrchfan i dwristiaid.
- ✓ Newid y drefn fel bod Croeso Cymru yn gweithredu hyd braich, yn hytrach nag o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, gan ddenu arbenigedd ac ymdrin â'r economi ymwelwyr dan arweiniad diwydiant.
- ✓ Cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau ymwelwyr ar gyfer trefi glan môr, treftadaeth grefyddol, lleoliadau ffilm a theledu ac achau.
- ✓ Gweithio gyda chyflogwyr ac addysgwyr er mwyn gwella delwedd y sector twristiaeth fel un sy'n cynnig llwybr gyrfa heriol a boddhaol.

GWELEDIGAETH AR GYFER Y STRYD FAWR YNG NGHYMURU

O dan y Blaid Lafur, Cymru sydd â'r nifer fwyaf o eiddo gwag ar y stryd fawr yn y DU. Mae gormod o strydoedd mawr Cymru yn cael eu difetha gan siopau gwag sydd â'u ffenestri dan goed. Mae siopwyr yn rhoi'r gorau i ymweld â'r stryd fawr gan ddewis canolfannau siopa ar gyrion trefi a manwerthwyr ar-lein, sy'n niweidio cymunedau lleol a pherchenogion siop.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio gyda chymunedau er mwyn adnewyddu'r stryd fawr yng Nghymru gan ei gwneud yn fwy deniadol fel lle i fyw, siopa a chymdeithasu ynddo, drwy sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu hailddefnyddio eto, torri trethi busnes a gwella mynediad.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- ✓ Sicrhau nad yw busnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 yn talu ardrethi busnes gwbl, a darparu rhyddhad wedi'i dapro hyd at £15,000.
- ✓ Rhannu lluosydd ardrethi busnes Cymru, gan fod yn decach â siopau'r stryd fawr.
- ✓ Hyrwyddo parcio am ddim mewn canol trefi ynghyd â manteision economi liw nos gyfrifol.
- ✓ Tanlinellu rôl rheolwyr canol trefi yn y gwaith o wella profiad y stryd fawr.
- ✓ Ysgogi syniadau adfywio cynhwysol a arweinir gan y gymuned.
- ✓ Creu Siarter ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru, gan helpu awdurdodau lleol i rannu arfer gorau.

CEFNOGI EIN DIWYDIANT DUR

Mae'r diwydiant dur yn rhan annatod o ddyfodol economi a sector diwydiannol Cymru. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymrwymedig i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU, a'r Undebau, er mwyn cefnogi'r diwydiant dur a sicrhau ei ddyfodol hirdymor ym Mhort Talbot, Llanwern, Shotton a Throstre.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- ✓ Cefnogi ymdrechion Llywodraeth y DU i sicrhau dyfodol hirdymor ar gyfer y diwydiant dur yng Nghymru.
- ✓ Ystyried sut y gall rhyddhad ardrethi busnes gael ei ddefnyddio er mwyn cefnogi dyfodol hirdymor y sector.
- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ymdrin ag effaith dypio dur yn Ewrop.
- ✓ Gweithredu rheolau caffael er mwyn cefnogi cynhyrchiant dur yng Nghymru.
- ✓ Cefnogi ymdrechion parhaus Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â phrisiau ynni uchel, a'u heffaith ar y diwydiant dur.
- ✓ Ystyried sefydlu Corfforaeth Ddatblygu Drefol i gefnogi adfywio ehangach ym Mhort Talbot.

Mae'r diwydiant dur yn hanfodol i Gymru. Mae'n rhaid i ni sicrhau ei ddyfodol hirdymor, cefnogi ein cymunedau dur ym Mhort Talbot, Llanwern, Shotton a Trostre, a chyflwyno sicrwydd economaidd.

Suzy Davies

SICRHAU ECONOMI TRETH ISEL

Wrth i bwerau trethiant gael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r etholiad hwn yn bwysig am resymau newydd. Mae angen i Gymru gael economi treth isel lle mae pobl yn cadw mwy o'r arian a enillir ganddynt, gan gynnig sicrwydd ariannol a helpu pobl ledled Cymru i gefnogi eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae economi treth isel yn helpu busnesau i dyfu ac yn creu swyddi o ansawdd.

O dan y Blaid Lafur, mae aelwydydd ar hyd a lled y wlad wedi cael eu cosbi gan gynydd diangen mewn biliau treth. Yn sgil penderfyniad y Blaid Lafur i wrthod rhewi'r Dreth Gyngor, er iddi gael yr arian i wneud hynny, mae'r cartref cyffredin £794 yn waeth ei fyd ers 2011.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru ddefnyddio pwerau newydd a phresennol, a gweithio gyda Llywodraeth y DU, er mwyn helpu Cymru i ddod yn genedl treth isel, cyflog uchel, sy'n llai dibynnol ar y wladwriaeth les. Drwy dorri Treth Incwm ar gyfer 1.3 miliwn o bobl, rhewi'r Dreth Gyngor, a chreu swyddi newydd, gallwn ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, tra'n galluogi pobl i gadw mwy o'r arian a enillir ganddynt, cynnig sicrwydd ariannol i deuluoedd sy'n gweithio'n galed a rhoi hwb i economïau lleol.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Torri eich trethi

- ✓ Torri Treth Incwm i drethdalwyr yng Nghymru - er mwyn gwneud Cymru yn fwy cystadleuol fel cenedl treth isel, gan alluogi pobl sy'n gweithio'n galed i gadw mwy o'r arian a enillir ganddynt.
- ✓ Rhewi'r Dreth Gyngor ledled Cymru yn ystod tymor y Cynulliad, gan ddiogelu gwasanaethau lleol tra'n gofyn i drigolion gyfrannu llai.
- ✓ Diddymu'r Dreth Stamp ar gyfer pobl sy'n prynu eu cartref cyntaf sy'n werth hyd at £250,000, er mwyn annog a chefnogi perchentyaeth.
- ✓ Datblygu'r achos dros ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr er mwyn gwella rhagolygon y diwydiant awyr yng Nghymru.
- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion o efadu ac osgoi trethi yng Nghymru.
- ✓ Diddymu ardrethi busnes i fusnesau llai, gan eu helpu i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac annog entrepreneuriaeth.
- ✓ Gweithio gyda Thrysorlys y DU er mwyn cyflwyno trefniadau trosiannol effeithiol ar gyfer datganoli'r Dreth Incwm.



SICRHAU
ECONOMI
ISEL



NEWID GO IAWN AR GYFER CYMRU IACHACH

Mae pobl ledled Cymru yn dibynnu ar y GIG drwy gydol eu bywydau. Mae ein cenedl yn haeddu cael GIG sydd â gwell adnoddau, sy'n fwy atebol ac a ddefnyddir yn gyfrifol, tra'n darparu'r driniaeth a'r gofal gorau i gleifion. Ochr yn ochr â hyn, mae angen i Gymru gael sector gofal cymdeithasol sy'n hybu annibyniaeth, yn cynnig cymorth fforddiadwy ac yn gweithio law yn llaw â'r GIG, a hynny ar fyrder.

Mae cyflwr y GIG yng Nghymru yn dangos nad yw'r Blaid Lafur yn gallu cyflawni'r hyn sy'n ofynnol. Mae cleifion a staff rheng flaen yn talu'r pris am ei thoriadau i'r GIG, canoli gwasanaethau ysbytai a methu â chyflawni targedau perfformiad allweddol. Ers 2010, mae'r Blaid Lafur wedi torri biliwn o bunnoedd o gyllid y GIG yng Nghymru, gan arwain at amseroedd aros hirach, colli gwelyau, rhoi'r gorau i wasanaethau ysbytai a gwrthod meddyginiaeth canser sy'n ymestyn bywyd.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig GIG wedi'i ariannu'n llawn i Gymru, sy'n darparu gofal effeithiol mor agos â phosibl i gartref cleifion, ac sy'n atebol iddynt. Byddwn yn sicrhau bod triniaethau canser newydd ar gael ac yn buddsoddi mewn cynlluniau arbenigol er mwyn trechu prif achosion marwolaethau yng Nghymru. Byddwn yn dileu rhwystrau rhwng y GIG a darparwyr gofal cymdeithasol, ac yn sicrhau bod yr henoed yn mwynhau sicrwydd ac urddas, gan weithredu ar gostau gofal preswyl gwaharddol.

Fel ein prif flaenoriaeth, bydd y Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn cyhoeddi maniffesto iechyd penodol ar greu Cenedl Iachach sy'n amlinellu camau clir i sicrhau'r newid go iawn sydd ei angen ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Cynyddu'r gwariant ar iechyd a diogelu gwasanaethau lleol

- ✓ Cynyddu gwariant y GIG mewn termau real bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf, gan ymdrin ag effeithiau toriadau cyllid y Blaid Lafur a sicrhau bod ein gwasanaeth iechyd yn cael y buddsoddiad sydd ei angen arno.
- ✓ Ymdrin â gwastraff ac aneffeithlonrwydd drwy greu Tasglu Effeithlonrwydd y GIG ar gyfer Cymru gyfan, fel y gellir buddsoddi mwy o arian mewn gwasanaethau rheng flaen.
- ✓ Atal ysbytai rhag cau ynghyd ag unrhyw ad-drefnu yn ystod tymor y Cynulliad, gan sicrhau nad oes ansicrwydd ynghylch y gwasanaeth yn y dyfodol.
- ✓ Cynyddu nifer y cyfleoedd hyfforddiant i feddygon a nyrsys yng Nghymru, er mwyn gwella capasiti'r GIG lle bo ei angen.
- ✓ Cynyddu nifer y nyrsys arbenigol, nyrs-ragnodwyr a nyrsys ymgynghorol o fewn y GIG yng Nghymru.
- ✓ Cynyddu'r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru gan sicrhau gwell cydbwysedd rhwng gwasanaethau i blant ac oedolion.
- ✓ Cefnogi arloesedd mewn gofal iechyd drwy ddarparu £50 miliwn mewn arian cyfatebol ar gyfer ymchwil i driniaethau newydd ac iachael.
- ✓ Sefydlu Cronfa Datblygu Ysbytai Cymunedol, er mwyn annog y defnydd arloesol o ysbytai cymunedol ledled Cymru.
- ✓ Ailsefydlu unedau mân anafiadau yn Ysbytai Bae Colwyn a Dinbych-y-pysgod, ac yn ardal y Rhyl/Prestatyn.

- ✓ Ymestyn oriau gweithredu gwasanaethau mân anafiadau yn y Drenewydd.
- ✓ Adfer gwasanaethau pediatrig a gofal arbennig i fabanod llawn amser yn Ysbyty Llwynhelyg.
- ✓ Datblygu arbenigedd iechyd gwledig, gan sicrhau bod y GIG yn cydnabod anghenion cymunedau gwledig ac yn gwella hawl mynediad cleifion ledled Cymru.

Gwella gwasanaethau brys

- ✓ Diogelu adrannau achosion brys ledled Cymru.
- ✓ Sicrhau bod o leiaf 75% o ambiwlansys yn ymateb i alwadau lle mae bywyd yn y fantol o fewn wyth munud.
- ✓ Buddsoddi £10 miliwn ychwanegol yng Ngwasanaeth Ambiwllans Cymru bob blwyddyn, a recriwtio 100 yn fwy o bersonél ar gyfer y gwasanaeth.
- ✓ Cefnogi Gwasanaeth Ambiwllans Awyr Cymru gyda £3 miliwn mewn arian cyfatebol bob blwyddyn.
- ✓ Rhoi terfyn ar y tagfeydd mewn adrannau achosion brys drwy wella mynediad at welyau ysbyty i gleifion sydd angen mynd ar ward.
- ✓ Hyfforddi cenhedlaeth newydd o ymatebwyr cyntaf drwy gyflwyno sgiliau achub bywyd brys fel rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgol.

Cynyddu dewis cleifion a hyrwyddo cyfrifoldeb

- ✓ Sefydlu Siarter Dewis Cleifion, gan alluogi pobl i ddewis eu meddyg teulu a'u hysbyty a chael dewis mewn perthynas ag achosion o drosglwyddo gofal a chael gafaél ar driniaeth.
- ✓ Cyflwyno system graddio ysbytai 'sgoriau ar y drysau' er mwyn rhoi hyder i gleifion ym mherfformiad y GIG.
- ✓ Parchu dewisiadau unigol cleifion o ran derbyn gofal lliniarol.

- ✓ Sicrhau bod pob claf yn cael ymgynghorydd meddygol penodol ac atebol wrth adael yr ysbyty.
- ✓ Sicrhau bod modd gweld meddyg teulu gyda'r hwyr ac ar benwythnosau, drwy annog meddygfeydd i gydweithio mewn ardaloedd lleol.
- ✓ Adolygu capasiti gofal critigol Cymru er mwyn bodloni'r galw gan gleifion.
- ✓ Codi tâl am bresgripsiynau i'r rheini a all ei fforddio, yn amodol ar eithriadau.
- ✓ Argraffu cost uned presgripsiynau ar gyffuriau a ragnodir gan y GIG er mwyn hyrwyddo cyfrifoldeb ymhlith cleifion.
- ✓ Treialu cynllun i godi tâl ar y rheini sy'n methu apwyntiadau ysbyty'n gyson heb reswm da.
- ✓ Cynyddu'r cosbau a roddir i'r rheini sy'n cam-drin staff y GIG neu'n ysmegu.

Gwella atebolrwydd y GIG

- ✓ Sefydlu Comisiynwyr Iechyd a gaiff eu hethol yn uniongyrchol ar gyfer pob bwrdd iechyd, gan gryfhau llais cleifion o fewn y GIG yng Nghymru.
- ✓ Cyfyngu ar daliadau cyflog olaf uwch aelodau o staff y GIG, a chynnal adolygiad o gyflogau uwch reolwyr.
- ✓ Sefydlu Uned Perfformiad annibynnol y GIG, sy'n gyfrifol am bennu targedau synhwyrol a gefnogir gan gleifion a chlinigwyr.

Blaenoriaethu iechyd y cyhoedd

- ✓ Penodi Dirprwy Weinidog Iechyd y Cyhoedd.
- ✓ Gwella mynediad at wasanaethau sgrinio canser, diabetes a chyflyrau'r llygaid.
- ✓ Cefnogi'r defnydd o 'anweddu' mewn mannau cyhoeddus, a threialu'r defnydd o e-sigaréts fel rhan o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu'r GIG.

- ✓ Penodi nyrs benodol ymhob ysgol uwchradd, coleg a phrifysgol yng Nghymru.
- ✓ Cydnabod bod teimlo'n unig ac ynysig yn risg iechyd y cyhoedd.
- ✓ Gweithio gyda gweithgynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru er mwyn lleihau faint o siwgr a halen sydd yn eu cynhyrchion.
- ✓ Gwneud mwy o ddefnydd o deleddygaeth er mwyn lleihau'r angen i gleifion wneud teithiau pell ac anghyfleus.

Gwella perfformiad, effeithlonrwydd a safonau

- ✓ Sefydlu Cronfa Trawsnewid Iechyd gwerth £100 miliwn er mwyn cefnogi'r gwaith o foderneiddio'r GIG yng Nghymru a'i wneud yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- ✓ Comisiynu ymchwiliad cwbl annibynnol i'r GIG yng Nghymru er mwyn nodi safonau isel.
- ✓ Cyflwyno system gofrestru ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd.
- ✓ Cynnig diogelwch llawn i'r rheini sy'n nodi arferion gwael, anghyfreithlon neu anfoesol o fewn y GIG.

Gwella gofal cymdeithasol

- ✓ Rhoi cap wythnosol o £400 ar gostau gofal preswyl, gan gynnig sicrwydd i'r rhai sy'n mynd i fyw mewn lleoliadau o'r fath.
- ✓ Diogelu £100,000 o asedau i'r rheini mewn gofal preswyl, gan gynnig urddas a sicrhau nad yw pobl yn colli eu cynilion oes oherwydd costau gofal.
- ✓ Sefydlu Comisiwn Trawsbleidiol ar ddarparu gofal cynaliadwy, hirdymor yng Nghymru.
- ✓ Deddfu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol gydweithredu, gan ddarparu system iechyd gwbl integredig am y tro cyntaf.

- ✓ Sefydlu Cronfa Arloesi mewn Gofal gwerth £10 miliwn er mwyn hyrwyddo cydweithio rhwng byrddau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol.
- ✓ Arolygu'r cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, a'i gwneud yn ofynnol i'r arolygiaeth gyhoeddi dangosyddion perfformiad.
- ✓ Hyrwyddo byw'n annibynnol a chynllunio ar gyfer anghenion yn y dyfodol drwy gynnig Asesiadau Aros Gartref gwirfoddol i'r rheini sy'n cyrraedd oedran pensiwn.
- ✓ Cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o gyllidebau personol a thaliadau uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol.
- ✓ Caniatáu ailsefydlu gwelyau gofal camu i lawr yn y gymuned.
- ✓ Ymgynghori ar gyflwyno'r hawl i ofalwyr gael seibiant.

TRECHU PRIF ACHOSION MARWOLAETHAU YNG NGHYMURU

Byddwn yn gweithredu cynlluniau arbenigol er mwyn sicrhau gwell canlyniadau wrth fynd ati i drechu pedwar prif achos marwolaethau yng Nghymru sef canser, clefyd y galon, dementia a strôc.

CANSER

1. Cyflwyno Cronfa Cleifion Canser gwerth £100 miliwn i Gymru.
2. Gwella mynediad at gyffuriau canser modern.
3. Sefydlu Gwasanaeth Trin Canser Symudol cenedlaethol.
4. Gwella mynediad at driniaethau radiotherapi modern.
5. Lleihau'r targed atgyfeiriad i ddiagnosis ar gyfer cleifion i 28 diwrnod erbyn 2020.
6. Sicrhau apwyntiad canser dilynol.
7. Penodi Hyrwyddwr Cleifion Canser.

CLEFYD Y GALON

1. Gwneud Cymru yn genedl o Ymatebwyr Cyntaf.
2. Cyflwyno hyfforddiant ar ddadebru cardio-anadlol a diffibylwyr mewn ysgolion uwchradd.
3. Gwella mynediad cyflym at Ddiffibylwyr Allanol Awtomatig i'r rheini sy'n cael trawiad ar y galon drwy sicrhau eu bod ar gael ym mhob prif adeilad cyhoeddus, ysgol a chanolfan siopa.
4. Sefydlu ymgyrch addysg gyhoeddus flynyddol, mewn partneriaeth â'r trydydd sector, er mwyn codi ymwybyddiaeth o glefyd y galon ac ataliad ar y galon.
5. Lleihau'r targed atgyfeiriad i driniaeth ar gyfer cleifion cardiadd i 18 wythnos.
6. Sicrhau bod mynediad parhaus at nyrsys arbenigol ac adsefydlu cardiaidd ledled Cymru.
7. Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer ymchwil i driniaethau newydd ar gyfer cleifion clefyd y galon.

DEMENTIA

1. Gweithio gydag elusennau dementia a rhanddeiliaid eraill er mwyn llunio Cynllun Dementia Cenedlaethol i Gymru.
2. Datblygu Cymru fel y genedl ystyriol o ddementia gyntaf yn y DU.
3. Sicrhau bod mwy o bobl sy'n byw gyda dementia yn cael diagnosis ffurfiol a chynnar.
4. Gwella'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia drwy ymestyn cludiant bws am ddim i'r prif ofalwr.
5. Sefydlu ymgyrch addysg gyhoeddus flynyddol, mewn partneriaeth â'r trydydd sector, er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddementia.
6. Diogelu amser hyfforddiant dementia i bob gweithiwr iechyd a gofal, a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia yn y cwricwlwm cenedlaethol.
7. Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer ymchwil i driniaethau newydd a chwilio am driniaeth iachaol ar gyfer dementia.

STRÔC

1. Sefydlu uned strôc benodol ym mhob ysbyty dosbarth cyffredinol yng Nghymru.
2. Ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd sicrhau mynediad at dimau clinigol a therapi amlddisgyblaethol i gleifion strôc.
3. Darparu mynediad 24/7 at thrombolysis chwala clotiau ledled Cymru.
4. Buddsoddi mewn gwasanaethau rhyddhau â chymorth yn gynnar fel bod cleifion strôc yn cael y siawns orau o wella.
5. Gwella mynediad at addasiadau yn y cartref.
6. Sefydlu ymgyrch addysg gyhoeddus flynyddol, mewn partneriaeth â'r trydydd sector, er mwyn codi ymwybyddiaeth o achosion a symptomau strôc a phyliau o isgemia dros dro (TIA).
7. Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer ymchwil i driniaethau newydd ar gyfer cleifion strôc.

Mae ein GIG yn effeithio ar bob un ohonom, a'n hanwyliaid, ac mae'n ein cyffwrdd ni ar bob cam o'n bywydau. Mae Cymru angen GIG sy'n cael ei ariannu'n llawn, sy'n fwy atebol, ac sy'n darparu gwell canlyniadau i gleifion. Nid yw'n iawn fod ein GIG yn rhoi paracetamol am ddim i filiwnyddion, ond yn gwadu mynediad i gyffuriau canser a allai achub bywydau. Mae angen i ni sicrhau newid gwirioneddol.

Darren Millar

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

GWELLA IECHYD MEDDWL A LLES

- ✓ Cynyddu'r gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl mewn termau real bob blwyddyn yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.
- ✓ Sefydlu targed 28 diwrnod newydd ar gyfer cael mynediad at therapiau siarad i blant ac oedolion erbyn 2021.
- ✓ Sicrhau bod timau argyfwng ar gael 24/7 ym mhob prif adran achosion brys.
- ✓ Cynyddu capasiti gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.
- ✓ Gwella mynediad at gymorth iechyd meddwl i ferched, cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd.
- ✓ Hyrwyddo ymwybyddiaeth ofalgar fel dull o atal iechyd meddwl gwael a helpu pobl i wella.
- ✓ Cymryd camau i drechu stigma a gwahaniaethu mewn perthynas ag iechyd meddwl.

SICRWYDD I BOBL HŶN

Mae henaint yn rhywbeth i'w ddathlu. Credwn fod pobl hŷn yn haeddu urddas a pharch, yn ogystal ag annibyniaeth a'r rhyddid i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain. Byddwn yn helpu pobl hŷn ledled Cymru i barhau i fod yn aelodau gweithredol o'r teulu, y gymuned

a chymdeithas, tra'n cynnig sicrwydd at y dyfodol gan gymryd camau clir o ran costau gofal preswyl. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn rhoi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran ac yn mynd ati i hyrwyddo a diogelu hawliau pobl hŷn.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMROU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- ✓ Penodi gweinidog i fod yn gyfrifol am gynrychioli pobl hŷn o fewn holl adrannau'r llywodraeth.
- ✓ Cyflwyno Bil Hawliau Pobl Hŷn a fydd yn ymestyn ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn a gosod dyletswydd ar gyrff yn y sector cyhoeddus i ymgynghori â phobl hŷn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- ✓ Adolygu ac ymestyn pwerau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a gwneud y rôl yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na Llywodraeth Cymru.
- ✓ Gweithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â galwyr digroeso aflonyddgar a diogelu pobl hŷn.
- ✓ Cydnabod cyfraniad pobl hŷn tuag at Gymru drwy ddarparu cludiant bws am ddim, tocynnau trên rhatach a phresgripsiynau am ddim.
- ✓ Cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol blynyddol yn erbyn achosion o gam-drin yr henoed, gwahaniaethu ar sail oedran ac atal achosion o gwmpo.
- ✓ Rhoi terfyn ar wahaniaethu ar sail oedran o fewn rhaglenni gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
- ✓ Buddsoddi mewn rhaglenni sgrinio iechyd a chynnig profion clyw ar ôl cyrraedd oedran pensiwn.
- ✓ Hyrwyddo byw'n annibynnol a chynllunio at anghenion y dyfodol drwy gynnig Aseidiadau Aros Gartref gwirfoddol i'r rheini sy'n cyrraedd oedran pensiwn.
- ✓ Grymuso pobl hŷn i wneud dewisiadau ynghylch eu gofal eu hunain drwy ymestyn a hyrwyddo'r defnydd o gyllidebau personol a thaliadau uniongyrchol.
- ✓ Ymestyn rôl wardeniaid tai gwarchod i gwmpasu pobl hŷn gymwys sydd wedi dewis aros yn eu cartrefi eu hunain.
- ✓ Cynnal ymgyngoriad ar sut i gydnabod cyfraniad neiniau a theidiau tuag at ofal plant o fewn y teulu.
- ✓ Gweithio gyda'r trydydd sector er mwyn sefydlu Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn.
- ✓ Cyflwyno cyhoeddiadau sain a thestun ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- ✓ Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyfeillio er mwyn ymdrin â theimlo'n unig ac ynysig ymhlith pobl hŷn.
- ✓ Rhoi cap wythnosol o £400 ar gostau gofal preswyl, gan gynnig sicrwydd i'r rhai sy'n mynd i fyw mewn lleoliadau o'r fath.
- ✓ Diogelu £100,000 o asedau i'r rheini mewn gofal preswyl, gan gynnig urddas a sicrhau nad yw pobl yn colli eu cynilion oes oherwydd costau gofal.





SICRHAU SAFONAU ADDYSG UWCH

Mae ein cenedl yn gartref i rai o athrawon mwyaf ysbrydoledig a disgyblion mwyaf uchelgeisiol y byd. Nid oes rheswm pam na ddylai Cymru berfformio ochr yn ochr â'r systemau addysgol gorau yn y byd. O dan y Blaid Lafur, fodd bynnag, mae Cymru wedi bod yn disgyn mewn tablau cynghrair ysgolion rhyngwladol, ac mae'n parhau i berfformio'n waeth na gweddill y DU.

Mae system addysg lwyddiannus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol a chyflawn, sy'n uchelgeisiol, yn ymfalchio yn eu cymuned ac yn gallu darparu ar gyfer eu teulu a chyfrannu tuag at gymdeithas.

Ac yntau eisoes yn wynebu newidiadau mawr posibl i'r cwricwlwm, mae'r proffesiwn addysg wedi blino ar ymyrraeth wleidyddol ormodol.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod bod dysgu llwyddiannus yn dibynnu ar bobl yn llawer mwy na strwythurau, a dyna pam ein bod yn ymddiried yn y ffaith mai athrawon, rhieni a phobl ifanc eu hunain sy'n allweddol i roi'r gorau i'r syniad o un ateb i bawb sydd wedi dominyddu addysg yng Nghymru ers 1999.

Drwy ymddiried mewn unigolion proffesiynol, gwario mwy yn yr ystafell ddosbarth a thrawsnewid hyfforddiant athrawon, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwella safonau er mwyn sicrhau bod profiad ysgol disgybl yn diwallu ei anghenion unigol. Drwy wneud Addysg Uwch yn fwy hygyrch i bawb, a chefnogi Addysg Bellach, byddwn yn dileu'r rhwystrau i ddysgu, gan alluogi pobl i feithrin y sgiliau ac ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Gwella safonau ysgolion

- ✓ Ariannu ysgolion yn uniongyrchol, gan roi mwy o reolaeth ariannol i athrawon, rhieni a llywodraethwyr, a gwario mwy yn yr ystafell ddosbarth.
- ✓ Sicrhau bod arolygiadau Estyn yn cynnwys hapwiriadau dirybudd.
- ✓ Sicrhau bod cymwysterau Cymru yn ddigon cadarn i gael eu cydnabod yn rhyngwladol.
- ✓ Sefydlu athrofa AU sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant cychwynnol athrawon ac ymchwil addysgol yn unig.
- ✓ Sefydlu coleg addysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus a phennu safonau athrawon.
- ✓ Diddymu'r consortia addysg rhanbarthol, nad ydynt yn atebol ac na chawsant eu hethol, er mwyn lleihau biwrocratiaeth a grymuso athrawon.
- ✓ Cydnabod y blynyddoedd ysgol o wyth i 14 oed fel cyfnod canol penodol, ac ymgynghori ag athrawon ar dargedu gwelliannau yn y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- ✓ Cyflwyno dysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd fel rhan o strategaeth addysg, a thrwy hynny feithrin cenedl deirieithog.
- ✓ Sefydlu rhaglen cyfnewid athrawon newydd, gan alluogi athrawon i feithrin eu sgiliau iaith.
- ✓ Trawsnewid y strategaeth Cymraeg mewn addysg i gynnwys targedau clir a helpu pob plentyn yng Nghymru i deimlo'n hyderus wrth gyfathrebu yn Gymraeg.
- ✓ Gweithio gydag ysgolion i danlinellu pwysigrwydd astudiaethau addysg ariannol ac economeg y cartref.

- ✓ Cyflwyno addysg iechyd y cyhoedd a sgiliau achub bywyd brys gorfodol i'r cwricwlwm.
- ✓ Manteisio ar ymchwil ryngwladol er mwyn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant o wahanol gefndiroedd cymdeithasol.

Gwella'r profiad ysgol

- ✓ Cyflwyno rhaglen adeiladu ysgolion gynaliadwy ac effeithiol drwy fanteisio ar elfennau o fodel partneriaeth cyhoeddus-preifat.
- ✓ Atal ysgolion sy'n cyflenwi'r cwricwlwm cenedlaethol rhag cau, heb gytundeb rhieni a llywodraethwyr.
- ✓ Rhoi mwy o ddewis i rieni o ran ble i addysgu eu plant.
- ✓ Annog mwy o ddefnydd o'r ystad ysgol, oriau y tu allan i'r ysgol, ar gyfer gofal plant ac achosion cymunedol eraill.
- ✓ Gwrthwynebu colli caeau chwarae ysgolion, gan gynnal mannau cymunedol hollbwysig i blant a phobl ifanc.
- ✓ Cymryd camau i recriwtio mwy o Gydgyssylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- ✓ Darparu cludiant ysgol am ddim i fwy o ddisgyblion sy'n mynychu eu hysgol uwchradd ffydd neu gyfrwng Cymraeg agosaf.
- ✓ Darparu brecwast ysgol am ddim ar yr un sail dalu â chinio ysgol am ddim.
- ✓ Cefnogi hawl penaethiaid i benderfynu p'un a gaiff disgyblion fynd ar wyliau yn ystod y tymor.

Ôl-14

- ✓ Ystyried sefydlu colegau technegol prifysgol, er mwyn dod â dysgwyr, colegau, prifysgolion a busnesau ynghyd, blaenoriaethu sgiliau a gwella statws cymwysterau galwedigaethol.
- ✓ Sicrhau bod athrawon yn lleisio mwy o farn ynghylch datblygiad y cwricwlwm, gan eu galluogi i deilwra dysgu pwnc ar sail cryfderau, gallu a diddordebau disgyblion.
- ✓ Cynnal ymgynghoriad ar ffyrdd o annog disgyblion i astudio ieithoedd tramor yng Nghyfnod Allweddol 4, yn enwedig ar y cyd â phynciau STEM a busnes.
- ✓ Darparu nyrs ym mhob ysgol uwchradd a choleg addysg bellach.

Addysg Bellach ac Uwch

- ✓ Diwygio cymorth ffoedd dysgu, cyflwyno 'Ad-daliad Rhent i Fyfrwyr', gan gynnig cymorth amserol a chynaliadwy gyda chostau byw prifysgol i israddedigion.
- ✓ Lleihau dyledion myfyrwyr drwy ystyried ymarferoldeb graddau cywasgedig a gaiff eu hastudio dros ddwy flynedd academaidd.
- ✓ Annog twf opsiynau dysgu rhan-amser, dysgu o bell a chysiau hyblyg.
- ✓ Diwygio'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, gan ailfuddsoddi'r arian mewn gofal plant a chludiant ysgol/coleg.
- ✓ Datblygu cysylltiadau rhwng cyflogwyr lleol a'r sectorau Addysg Bellach ac Uwch.
- ✓ Parhau i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac ystyried cylch gwaith diwygiedig.
- ✓ Helpu gofalwyr ifanc, a'r rheini sy'n rhan o'r system ofal neu sy'n ei gadael, i gael addysg ôl-16, gan gynnwys drwy gyflwyno cynllun teithio rhatach.

Wrth gyfaddef nad ydynt wedi rhoi llawer o sylw i addysg, mae Llafur, yn gywilyddus, wedi siomi cenedlaeth o bobl ifanc. Mae Cymru angen system addysg sy'n grymuso athrawon ac sy'n helpu disgyblion i gyflawni eu llawn botensial.

Angela Burns



SICRHAU DYFODOL EIN PLANT

Yn ogystal â gwella safonau a chynyddu disgwyliadau o fewn system addysg Cymru, bydd Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn cynnig dyfodol mwy sicr i blant drwy weithredu ar ddiogelwch ar-lein, cefnogi teuluoedd gyda chostau cynyddol gofal plant, a chynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at eu cymuned leol yn llawn.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMRO YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- ✔ Treblu'r lwfans gofal plant am ddim i rieni plant tair a phedair oed o 10 awr i 30 awr yr wythnos.
- ✔ Grymuso rhieni i benderfynu ble a phryd yr aiff eu plant i'r ysgol feithrin, gan ddefnyddio eu hawl i ofal plant am ddim yn fwy hyblyg.
- ✔ Diwygio Dechrau'n Deg fel bod cyllid yn targedu teuluoedd sydd ei angen yn hytrach na chodau post.
- ✔ Sicrhau bod plant mewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn dod i fwy a mwy o gysylltiad â'r Gymraeg.
- ✔ Sefydlu rôl gweithiwr allweddol ardal i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- ✔ Diwallu anghenion plant sy'n gweithredu fel gofalywr, gwella'r broses o'u hadnabod, cefnogi'r broses o adnabod gofalywr ifanc er mwyn dileu'r rhwystrau i addysg a chyflwyno cynlluniau teithio rhatach.
- ✔ Sicrhau bod cynlluniau cymorth priodol ar waith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu mewn ysgolion a cholegau.
- ✔ Gweithio gyda darparwyr rhynggrwyd er mwyn helpu i gadw plant yn ddiogel rhag bygythiadau ar-lein a chefnogi cynllun 'Child Rescue Alert'.
- ✔ Grymuso pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, a ariennir drwy gwtogi cyflogau gweinidogol.

SICRHAU CARTREF

Mae tai yn hanfodol i iechyd, lles ac adfywio. Yn y bôn, mae cymunedau llwyddiannus sydd wedi'u grymuso yn dibynnu ar dai da.

Yn anffodus, o dan y Blaid Lafur, Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae'r diwydiant adeiladu tai yn crebachu. Mae argyfwng o ran nifer y tai sydd ar gael, mae'r rheini sydd am brynu eu cartref cyntaf yn wynebu llawer gormod o rwystrau ac mae llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gartref clud a diogel.

Drwy weithio gyda'r sector tai cyfan, a chydabod rôl hanfodol y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat o ran darparu tai, byddwn yn cyflenwi cymysgedd o dai o ansawdd uchel,

fel bod teuluoedd yn gallu dewis yr eiddo sy'n diwallu eu hanghenion orau. Wrth bennu targedau uchelgeisiol ar gyfer adeiladu tai dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn darparu degau ar filoedd o gartrefi fforddiadwy newydd i bobl ledled Cymru.

Yn ogystal ag ymdrin â'r heriau sy'n dal i wynebu tenantiaid a landlordiaid, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn benderfynol o ddileu'r rhwystrau i berchentyaeth. Drwy dorri'r Dreth Stamp i'r rheini sy'n prynu eu cartref cyntaf, darparu mwy o dai fforddiadwy ac ymestyn yr Hawl i Brynu, rydym am weld mwy o bobl nag erioed yn cael budd o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMRU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- ✓ Lansio rhaglen uchelgeisiol i adeiladu tai, gan gydnabod yr angen i ddarparu 70,000 o gartrefi newydd yn ystod tymor nesaf y Cynulliad, ysgogi meddylfryd marchnad gyfan a darparu eiddo newydd i'w rentu, perchentyaeth cost isel a phrynu ar y farchnad agored.
- ✓ Diddymu'r Dreth Stamp ar gyfer pobl sy'n prynu eu cartref cyntaf sy'n werth hyd at £250,000, gan ddileu un o'r prif rwystrau i berchentyaeth.
- ✓ Diogelu'r hawl i brynu i denantiaid sydd am brynu eu cartref cyngor, gan adfer y disgownt llawn.
- ✓ Ailfuddsoddi'r elw o Hawl i Brynu mewn tai cymdeithasol newydd, gan gynyddu nifer y bobl a all ddod o hyd i gartref sy'n diwallu eu hanghenion.
- ✓ Rhoi'r dewis i gymdeithasau tai gynnig Hawl i Brynu i denantiaid lle byddai hyn yn helpu i gyflawni cynlluniau tai unigol.
- ✓ Ymestyn Hawl i Brynu i eiddo y mae angen ei adnewyddu, gan helpu i adfywio cymunedau ac ysgogi cwmnïau adeiladu lleol.
- ✓ Datblygu cynllun 'Cartref Cychwynnol Cymru' er mwyn cynnig eiddo sydd islaw gwerth y farchnad i bobl sy'n prynu eu cartref cyntaf.
- ✓ Annog pobl i gymryd rhan yn 'ISA Help i Brynu' Llywodraeth y DU.
- ✓ Gweithredu cynllun rhent i brynu fel bod perchentyaeth yn fwy hygyrch.
- ✓ Gweithio gyda'r sector rhentu preifat er mwyn datblygu asiantaethau gosod cymdeithasol – sy'n gysylltiedig â safonau achredu priodol – fel mentrau cymdeithasol, er mwyn diwallu anghenion y rheini sydd fwyaf anodd eu cartrefu.



- ✓ Cyflwyno strategaeth cartrefi gwag, gan ailddechrau defnyddio eiddo.
- ✓ Cefnogi Ffactorau Galluogi Tai Gwledig er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy gwledig sy'n diwallu anghenion lleol.
- ✓ Diwygio rheolau cynllunio er mwyn helpu cymdeithasau tai i ddiwallu anghenion lleol, drwy adeiladu cartrefi cychwynnol i'w prynu a chartrefi i'w rhentu ar safleoedd eithriadig gwledig.
- ✓ Diwygio canllawiau cynllunio er mwyn annog adeiladu ar dir llwyd a thir cyhoeddus, cefnogi cynllun tir ar gyfer tai, a datblygu cofrestr genedlaethol o safleoedd tir halogedig er mwyn osgoi unrhyw ddatblygiadau amhriodol.
- ✓ Datganoli mwy o gyfrifoldebau cynllunio i gymunedau lleol, gan roi mwy o lais iddynt ac ailgydbwysu anghenion lleol â thargedau canolog.
- ✓ Ymrwmo i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020, gan gydnabod ei photensial i sicrhau adfywio economaidd a chymdeithasol.
- ✓ Cysylltu cyflenwad tai newydd a thai wedi'u hadnewyddu ag adfywio cymunedau mewn modd cynaliadwy, drwy weithio gyda landlordiaid cymdeithasol i ddiwallu anghenion iechyd y cyhoedd.
- ✓ Gweithio gyda'r diwydiant adeiladu i hyrwyddo diogelwch ac effeithlonrwydd ynni, tra'n lleihau biwrocratiaeth ddiangen er mwyn annog gweithgarwch adeiladu tai.



DYFODOL SICR I GYMRU WLEDIG

Mae traean o bobl yng Nghymru yn byw mewn ardal wledig. Mae ein cymunedau gwledig yn wynebu cyfres o heriau unigryw y mae gweinidogion Llafur wedi'u hanwybyddu am ormod o amser. Mae'r ffaith mai rôl cabinet iau sydd nawr yn gyfrifol am faterion gwledig yn adrodd cyfrolau am y ffordd y mae'r Plaid Lafur wedi esgeuluso amaethyddiaeth a chefn gwlad.

Mae angen i Gymru gael llywodraeth sy'n deall anghenion penodol ein cymunedau gwledig, gan alluogi pobl leol i chwarae llawer mwy o

ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; tra'n lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, rhoi gwerth ar gynhyrchiant lleol o ansawdd uchel, diogelu gwasanaethau cyhoeddus gwledig a rhoi mwy o flaenoriaeth i iechyd a lles anifeiliaid.

Nawr - yn fwy nag erioed - mae angen i gymunedau gwledig Cymru gael mwy o gymorth a grym. Gyda'r heriau a wynebir ganddynt ar eu lefel uchaf erioed, mae angen newid go iawn gydag arweinyddwyr sy'n sefyll dros Gymru wledig.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Cynnig sefydlogrwydd i'r byd amaeth

- ✓ Ailsefydlu'r portffolio Materion Gwledig fel uwch rôl yn y cabinet.
- ✓ Cynnal ymarfer ailfapio tir eang er mwyn dylunio model talu tecach a diwygio'r Cynllun Taliadau Sylfaenol i ffermwyr.
- ✓ Defnyddio adolygiad canol tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i gynnig bargaen well i ffermwyr ac ymrwmo i wneud gwaith paratoi ar y PAC yn gynharach ar gyfer 2020.
- ✓ Gweithredu 'Siarter Cig Coch' er mwyn helpu ffermwyr, proseswyr a siopwyr yng Nghymru.
- ✓ Datrys arferion masnachol annheg a phroblemau cytundebol yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch llaeth.
- ✓ Diddymu'r rheol sydd wedi dyddio sy'n gwahardd symud da byw am chwe diwrnod, a chyflwyno system ymarferol o unedau cwarantîn.
- ✓ Cysoni cynlluniau arolygu ffermydd gyda'r nod o gyfuno ymweliadau, er mwyn lleihau biwrocratiaeth a rheoliadau diangen.

- ✓ Cyflwyno cynllun cynhwysfawr, a arweinir gan wyddoniaeth, i ddileu TB buchol er mwyn ymdrin â'r clefyd mewn gwartheg a bywyd gwyllt.

Hyrwyddo ein cynnyrch clodwiw

- ✓ Adfywio Strategaeth Bwyd a Diod Cymru, a arweinir gan y diwydiant.
- ✓ Cefnogi 'Trefi Blasu' penodol er mwyn hyrwyddo cynnyrch a chefnogi twristiaeth fwyd.
- ✓ Hyrwyddo bwyd lleol drwy god ymarfer gwirfoddol, fel bod archfarchnadoedd yn cyflenwi mwy o fwyd a diod o Gymru.
- ✓ Cynyddu defnydd y sector cyhoeddus o gynnyrch a wnaed yng Nghymru.
- ✓ Cefnogi labeli tarddle sy'n rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am y cynnyrch.

Gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer cymunedau gwledig

- ✓ Diwygio fformiwla cyllid llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wledig yn cael eu hadlewyrchu'n gywir.

- ✔ Pennu cyfrifoldeb gweinidogol penodol dros y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin er mwyn cynrychioli anghenion cymunedau gwledig o amgylch bwrdd y Cabinet.
- ✔ Cyflwyno panel annibynnol i graffu ar effaith polisiâu Llywodraeth Cymru ar ardaloedd gwledig cyn eu gweithredu, er mwyn sicrhau bod holl gymunedau Cymru yn cael yr un tegwch.
- ✔ Anelu at sicrhau bob pob rhan o Gymru yn gallu cael gwasanaeth band eang a ffôn symudol tra-chyflym erbyn 2019, gan fynd i'r afael ag ymysu gwledig a gwella cysylltedd.
- ✔ Diwygio'r system gynllunio ar gyfer seilwaith cyfathrebu - er mwyn ei gwneud yn haws i uwchraddio safleoedd presennol ac adeiladu ar safleoedd newydd, yn amodol ar gymeradwyaeth leol.
- ✔ Gweithredu cynlluniau i gefnogi dyfodol trefi marchnad, gan ddiogelu eu statws hanesyddol yng Nghymru a'u rôl strategol o fewn economïau lleol.
- ✔ Adolygu'r Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael yn haws i ffermwyr a microfusnesau.
- ✔ Sicrhau bod cymunedau lleol yn cael yr hawl i gynnig er mwyn dod yn gyfrifol am wasanaethau gwledig pwysig - gan gynnwys swyddfeydd post, tafarndai a neuaddau pentref.
- ✔ Diogelu cyllid Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Urdd.

LLES ANIFEILIAID

Mae bron hanner yr aelwydydd yng Nghymru yn berchen ar anifail anwes ac mae gan Gymru dreftadaeth amaethyddol gyfoethog a thoreth o fywyd gwyllt. Mae lles anifeiliaid yn hynod bwysig i bobl Cymru - a bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn arwain y ffordd o ran sicrhau bod ein hanifeiliaid yn cael gwell diogelwch, boed hwy ar yr aelwyd, ar y fferm neu allan yn y gwyllt.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- | | |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| ✔ Rhoi terfyn ar y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcau. | ladd anifeiliaid lle cânt eu stynio a lle na cânt eu stynio. |
| ✔ Cyfuno cyfraith bywyd gwyllt yn un Bil Cynulliad hygyrch er mwyn cefnogi camau gorfodi. | ✔ Cyflwyno CCTV gorfodol mewn lladd-dai er mwyn helpu i orfodi safonau lles, a ariennir drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer lladd-dai llai o faint. |
| ✔ Adolygu safonau bridio a gofynion cofrestru anifeiliaid anwes er mwyn sicrhau bod digon o ddiogelwch ar gael i anifeiliaid. | ✔ Cynyddu defnydd y sector cyhoeddus o gynnyrch Cymreig lles uchel. |
| ✔ Diweddarau deddfwriaeth ar werthu anifeiliaid i gynnwys masnach ar-lein. | ✔ Gweithio gyda gweithgynhyrchwyr er mwyn annog labeli cliriach ar gynhyrchion i'r cartref sy'n beryglus i anifeiliaid anwes. |
| ✔ Cefnogi dull o labelu cynhyrchiant er mwyn gwella dewis defnyddwyr, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng dulliau o | |

Mae cymunedau gwledig yn gwneud i'n cenedl dicio, a dylid rhoi mwy o bŵer iddynt i reoli eu dyfodol eu hunain. Mae economi wledig fywiog yn hanfodol ar gyfer ffyniant economaidd, a rhaid i'n cefn gwlad fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth nesaf Cymru. Nawr - yn fwy nag erioed - mae cymunedau gwledig Cymru angen mwy o gefnogaeth a phŵer.

Russell George



SICRHAU AMGYLCHEDD CYMRU

Cydbwysu gofynion ein hamgylchedd naturiol ag anghenion economaidd a lles cymdeithas yw un o'r heriau mwyaf anoddaf sy'n wynebu unrhyw lywodraeth.

Mae'r man lle rydym yn byw yn effeithio ar bob un ohonom bob dydd, a chredwn fod cyfraniad Cymru tuag at ddiogelu'r amgylchedd, yn drefol ac yn wledig, yn un a rennir gan y llywodraeth a dinasyddion fel ei gilydd. Mae'r cytundeb a gafwyd yng Nghynhadledd Newid yn yr Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig ym Mharis yn herio Cymru

i weithio gyda gwledydd eraill er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a thechnolegau sy'n llygru ac sydd wedi dyddio.

Mae amgylchedd Cymru, a gaiff ei edmygu ledled y byd, yn adnodd gwerthfawr ac yn ganolog i'n lles economaidd. Yn anffodus, mae'r Blaid Lafur yn debygol o fethu â chyflawni ei thargedau lleihau carbon - tra bod cyfraddau ailgylchu ledled Cymru wedi bod hwnt ac yma. Mae angen newid go iawn ar Gymru er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu'n barhaol.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Adnoddau naturiol

- ✓ Dynodi ardaloedd sy'n wynebu perygl mawr o lifogydd yn dir Llain Las er mwyn atal datblygiadau anghyfrifol, gan ddwyn awdurdodau cynllunio i gyfrif pan roddir caniatâd cynllunio yn yr ardaloedd hyn.
- ✓ Comisiynu asesiad annibynnol o gadernid amddiffynfeydd arfordirol a mewndirol Cymru, ynghyd â'r gwaith o'u cynnal a'u cadw, er mwyn llywio strategaeth atal llifogydd genedlaethol.
- ✓ Datblygu cynlluniau ymateb i lifogydd lleol a adolygir yn flynyddol.
- ✓ Datblygu strategaeth ynni morol er mwyn hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygu morlyn llanw dichonadwy arloesol a thechnolegau cadwyni cyflenwi.
- ✓ Cefnogi rolau Dŵr Cymru a Severn Trent Water fel ymgygoreion cynllunio statudol.
- ✓ Sicrhau bod cynlluniau plannu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried mesurau lliniaru llifogydd.
- ✓ Cyflwyno terfyn amser statudol i Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu a ddylid rhoi trwyddedau morol ai peidio.

- ✓ Galluogi ffermwyr a thirfeddianwyr i gymryd camau lleol cyfrifol fel treillio er mwyn atal llifogydd.
- ✓ Symleiddio awdurdodau parciau cenedlaethol a chyflwyno aelodau a etholir yn uniongyrchol iddynt.

Rheoli carbon

- ✓ Diddymu canllawiau cynllunio, sy'n hyrwyddo effaith gronol a gorddibyniaeth ar fferydd gwynt, ac annog amrywiaeth o ddulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- ✓ Cyhoeddi strategaeth ar gynllunio economaidd carbon er mwyn darparu swyddi gwyrdd ar gyfer y dyfodol.
- ✓ Cynnal adolygiadau blynyddol o allyriadau carbon yng Nghymru, fel y gellir monitro targedau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol yn well.
- ✓ Parhau i weithredu polisi presennol Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau gweinidogion ar geisiadau cynllunio ar gyfer ffracio hydrologig.
- ✓ Gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau sy'n ymwneud â thrwyddedu ffracio yn cael eu datganoli.

✔ Gweithio gyda'r diwydiant adeiladu er mwyn uwchraddio sgiliau a blaenoriaethu gwaith ôl-osod ac inswleiddio priodol ar eiddo hŷn er mwyn lleihau allyriadau carbon.

Gwastraff a'r amgylchedd naturiol

✔ Defnyddio incwm o Dreth Tirlenwi ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd naturiol - gan gynnwys drwy fioamrywiaeth, a phrosiectau ailgylchu.

✔ Gweithio gyda manwerthwyr i dreialu cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer poteli a chaniau er mwyn annog ailgylchu.

✔ Deddfu er mwyn ailgyflwyno mesurau diogelu statudol uwch ar gyfer diffiniadau o dirwedd, bioamrywiaeth ac ecosystemau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol.

✔ Sicrhau bod awdurdodau lleol yn talu dirwyon am fethu â chyflawni targedau ailgylchu.

✔ Galluogi manwerthwyr i ddewis pa elusen sy'n cael budd o'r tâl am fagiâu siopa.

✔ Cynyddu'r cosbau am dipio anghyfreithlon, baw cŵn a sbwriel a blaenoriaethu camau gorfodi lleol.

✔ Gweithio gyda manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr er mwyn lleihau deunydd pecynnu cynhyrchion.

✔ Ymgynghori ar rôl treulio anaerobig wrth leihau gwastraff.

✔ Deddfu er mwyn sicrhau bod cynghorau yn casglu gwastraff sy'n weddill bob pythefnos o leiaf, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd ac atal tipio anghyfreithlon.

✔ Ymgynghori ar y gofyniad i drwsio ceudyllau o fewn terfynau amser lle maent yn peryglu'r cyhoedd neu'n atal pobl sydd â phroblemau symud neu nam ar y golwg rhag defnyddio llwybrau cerdded yn hyderus.





GRYMUSO CYMUNEDAU LLEOL

Mae datganoli go iawn yn ymwneud â dod â'r broses gwneud penderfyniadau a chyfrifoldebau mor agos â phosibl at bobl a'u cymunedau - nid cadw pwerau ym Mae Caerdydd.

Yn rhy aml, mae penderfyniadau wedi cael eu canoli ym Mae Caerdydd, gan atal cymunedau lleol rhag cael y cyfle i leisio barn am y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu neu chwarae mwy o ran yn y gwaith o sicrhau dyfodol amwynderau lleol.

Mae awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned yn rhannau annatod o'u cymunedau.

Mae angen mwy o hyblygrwydd arnynt i ddarparu gwasanaethau, tra'n cael anogaeth i fabwysiadu arferion mwy agored a thryloyw, gan eu gwneud yn gwbl atebol am eu penderfyniadau.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cyflawni newid go iawn o ran cynnwys cymunedau, drwy alluogi pobl i wneud penderfyniadau allweddol am ddyfodol eu cymuned, gan sicrhau bod grwpiau lleol yn cael eu grymuso a bod swyddogaethau cefnogol cymdeithasau lleol yn cael eu defnyddio, er mwyn datblygu cymunedau mwy cynaliadwy a gwydn.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMRO YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Grymuso cymunedau lleol

- ✔ Gweithio gyda Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, grwpiau busnes a sefydliadau gwirfoddol er mwyn datganoli pŵer a gwireddu potensial economaidd y gogledd drwy ddatblygu Pweryd Gogleddol.
- ✔ Cyflwyno'r 'Hawl i Gynnig', gan alluogi sefydliadau cymunedol i fabwysiadu asedau pwysig lleol.
- ✔ Dim ond caniatáu i awdurdodau lleol uno gyda chaniatâd penodol y cyhoedd drwy refferendwm.
- ✔ Galluogi pobl i gynnal refferenda ar faterion allweddol, gan gynnwys cyflwyno meiri a gaiff eu hethol yn uniongyrchol drwy ostwng y trothwy sbarduno gofynnol i 5% o'r etholaeth.
- ✔ Sicrhau bod cymunedau yn cael fetu ar gynnydd gormodol yn y Dreth Gyngor.
- ✔ Cyflwyno Bil Lleoliaeth a Dinasyddiaeth Cymru er mwyn ysbrydoli cenedl o ddinasyddion gweithredol sydd wedi'u cynnwys, gan fanteisio ar sgiliau a grym trigolion lleol, cymdeithasau a sefydliadau wrth greu cymunedau hyderus a gwydn, a gwasanaethau gwell.

- ✔ Annog datblygiad cwmnïau cydfuddiannol gwasanaeth cyhoeddus, lle bydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau lleol, cynaliadwy.
- ✔ Adfywio arferion caffael cynghorau drwy eu hannog i siopa'n lleol.
- ✔ Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar 'Gyflwr Glan Môr', er mwyn llywio cynlluniau adfywio a helpu cymunedau glan môr i gyflawni eu llawn botensial.

Sbarduno llywodraeth leol effeithiol

- ✔ Cyflwyno'r broses o ffrydio cyfarfodydd cyngor, cabinet a phwyllgor craffu llawn awdurdodau lleol yn fyw.
- ✔ Cyhoeddi adroddiadau cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio ar-lein.
- ✔ Cyflwyno deddfwriaeth i ddiffinio rôl arweinwyr a phrif weithredwyr cynghorau.
- ✔ Cyfyngu ar gydopsiynau cynghorau cymuned, fel bod pobl yn cael lleisio mwy o farn ar eu cynrychiolaeth.
- ✔ Lleihau nifer y penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd lle nad yw'r cyhoedd yn bresennol.

- ✔ Annog cynghorwyr i gynnwys y cyhoedd yn fwy drwy gyhoeddi adroddiadau blynyddol a chaniatáu cwestiynau cyhoeddus mewn cyfarfodydd cyngor llawn.
- ✔ Gweithredu system adalw cyhoeddus ar gyfer cynghorwyr sy'n perfformio'n wael.
- ✔ Adolygu strwythurau cynghorau tref a chymuned, gan eu galluogi i chwarae mwy o ran yn y broses gynllunio, datganoli mwy o gyfrifoldebau cynllunio i gymunedau lleol ac, ailgydbwysu anghenion cymuned a thargedau canolog.
- ✔ Cynyddu amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol, drwy gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth ar rôl cynghorwyr.

Cyflawni gwerth am arian

- ✔ Rhewi'r Dreth Gyngor ledled Cymru yn ystod tymor y Cynulliad.
- ✔ Cyhoeddi manylion cyflogau uwch swyddogion yng nghynghorau Cymru.
- ✔ Sefydlu fframwaith, wedi'i gefnogi gan gorff cynghori annibynnol, i adolygu a llywio graddfeydd cyflog ar gyfer uwch swyddogion cynghorau.
- ✔ Adolygu cyflogau uwch swyddogion, taliadau diswyddo cynghorau a phenodiadau 'drysau troi', gan wella tryloywder penodiadau cyhoeddus.
- ✔ Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi unrhyw wariant sydd dros £500.
- ✔ Trechu problem gwastraff mewn llywodraeth leol, gan weithio gyda chynghorau i ryddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.



SICRHAU CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A CHYFLE CYFARTAL

Am ormod o amser, mae gweinidogion Llafur wedi methu â defnyddio pwerau datganoledig i ddiogelu pob aelod o gymdeithas. O helpu pobl anabl i fyw bywydau llawn, annibynnol, i ddileu'r rhwystrau i gynnwys cymunedau, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am i bawb gael y cyfle i gyflawni eu llawn botensial.

Gall Cymru ddatblygu cymunedau cryfach, tecach a mwy cymdeithasol gyfiawn drwy feithrin sgiliau ein holl drigolion, pŵer cymdeithasau lleol a swyddogaethau cefnogol sefydliadau. Ledled Cymru, byddwn yn meithrin gwell ymdeimlad o gyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb, gan gyflwyno'r newid go iawn a'r cyfleoedd y mae pob rhan o gymdeithas yn eu haeddu, a chanolbwyntio ar lais, dewis ac annibyniaeth leol.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMRU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Helpu i gyflwyno cyfiawnder cymdeithasol

- ✓ Gweithio gyda chymunedau er mwyn creu rhaglen adfywio sy'n canolbwyntio ar gael sefydliadau lleol cryf i drechu tlodi, creu cymdeithas gryfach a sicrhau perchenogaeth gymunedol.
- ✓ Rhoi model cymdeithasol anabled ar waith, gan gydnabod mai cyfundrefn cymdeithas sy'n creu anabled, yn hytrach na nam yr unigolyn.
- ✓ Cyflwyno rhaglen effeithlonrwydd ynni 'Cartrefi Iach, Pobl Iach' i Gymru ar gyfer aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd.
- ✓ Rhoi tlodi tanwydd wrth wraidd camau gweithredu i drechu amddifadedd cymdeithasol - gan weithio gydag aelodau Clymblaid Tlodi Tanwydd Cymru.
- ✓ Gweithio gydag awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a chynlluniau effeithlonrwydd ynni presennol er mwyn datblygu Cynlluniau Gwres Fforddiadwy Lleol.
- ✓ Cefnogi gwasanaethau cyngor annibynnol i bobl sydd mewn tlodi tanwydd.
- ✓ Gweithredu canllawiau NICE ar farwolaethau y gellir eu hosgoi yn y gaeaf.
- ✓ Gweithio gyda manwerthwyr ynni er mwyn datblygu cronfeydd gwres mewn argyfwng pan fo perygl i iechyd.
- ✓ Cefnogi undebau credyd er mwyn sicrhau eu cynaliadwyedd, gan weithio gyda hwy i wella cynhwysiant ariannol a mynediad at gyllid fforddiadwy.
- ✓ Blaenoriaethu a symleiddio cyllid er mwyn galluogi'r gymuned i ymateb i broblemau cymdeithasol, fel mentora cymheiriaid ar gyfer y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, trechu bwlio ac ymdrin ag, unigrwydd, addysg ariannol a diogelwch yn y gymuned.
- ✓ Atal cyrff cyhoeddus rhag codi tâl am ddarparu biliau neu wybodaeth drwy'r post yn hytrach nag ar-lein.
- ✓ Cyflwyno Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol peilot ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed ar leoliadau cymdeithasol.
- ✓ Defnyddio sbardunau datganoledig er mwyn cefnogi a chynorthwyo'r dasg o integreiddio ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n ceisio cymorth.
- ✓ Cefnogi rhaglen Cymru o blaid Affrica, gan ddatblygu trefniadau partneriaeth a hyrwyddo datblygu cynaliadwy rhyngwladol.

Mae Llafur wedi methu â mynd i'r afael â gwir achosion tlodi. Drwy ddefnyddio sgiliau unigolion a sefydliadau yn ein cymunedau, a chefnogi pobl i fyw bywydau llawn, annibynnol, gallwn sicrhau cyfiawnder cymdeithasol gwirioneddol, a chreu cymdeithas decach, fwy cyfartal.

Mark Isherwood

CEFNOGI CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG

- ✓ Cyflwyno Comisiynydd y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr, sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n hyrwyddo anghenion cymuned y lluoedd arfog ac yn sicrhau bod pwerau datganoledig yn cael eu defnyddio er mwyn cynnig y cymorth sydd ei angen.
- ✓ Sefydlu Cerdyn Cyn-filwyr sy'n cynnwys cludiant bws am ddim, mynediad â blaenoriaeth i driniaeth gan y GIG ac addasiadau perthnasol i'r cartref lle bo eu hangen o ganlyniad i anaf neu salwch a gafwyd yn ystod eu gwasanaeth, yn ogystal â mynediad am ddim i ganolfannau hamdden a safleoedd Cadw.
- ✓ Cyflwyno asesiad o anghenion cyn-filwr fel y sail i ddarparu gwasanaethau.
- ✓ Sicrhau nad oes unrhyw gyn-filwr yn colli ei Bensiwn Anabledd Rhyfel pan fydd yn defnyddio gofal cymdeithasol.
- ✓ Sicrhau bod anghenion iechyd cyn-filwr yn cael eu diwallu drwy Gyfamod y GIG y Lluoedd Arfog.
- ✓ Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i wasanaeth Cyn-filwyr GIG Cymru, gan hwyluso ei waith i helpu'r rhai ag anhwylder straen wedi trawma (PTSD) a salwch meddwl.
- ✓ Gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella gwasanaeth adsefydlu cyn-filwr sydd yn y system cyfiawnder troseddol.
- ✓ Gweithio gyda'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod mwy o lety â chymorth ar gael i gyn-filwyr sy'n agored i niwed.
- ✓ Gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod cofebau rhyfel yn cael eu cynnal a'u cadw.

Creu cymdeithas fwy cyfartal a diogelu pobl sy'n agored i niwed

- ✓ Cefnogi polisi penodiadau 40:40:20 i fyrddau cyhoeddus a byrddau a noddir; cynyddu cynrychiolaeth gynhwysol; a cheisio sicrhau bod mwy o bobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, neu bobl o wahanol gefndiroedd ethnig neu grefyddol yn chwarae rhan.
- ✓ Sicrhau bod prentisiaethau a rhaglenni hyfforddiant a ariennir gan y llywodraeth yn ystyried cydbwysedd rhwng y rhywiol ac anghenion gofaluwr.
- ✓ Ymestyn cludiant bws am ddim i brif ofalwyr.
- ✓ Parhau i ariannu'r rhaglen Cefnogi Pobl.
- ✓ Adolygu Grant Byw'n Annibynnol Cymru, gan sicrhau nad oes unrhyw newidiadau mewn cymorth yn y dyfodol yn rhoi pobl dan anfantais.
- ✓ Codi ymwybyddiaeth o golli'r synhwyrwau wrth ystyried hygrychedd gwasanaethau.
- ✓ Cefnogi'r ymgyrch i gadw canolfannau 'Hear to Help' ledled Cymru.
- ✓ Ymdrin â'r diffyg ymwybyddiaeth o reoliadau acwsteg mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru, gan; helpu plant ysgol â phroblemau clyw i ragori'n academaidd.
- ✓ Buddsoddi mewn gwell cyfleusterau newid cyhoeddus i bobl anabl.
- ✓ Gweithio gyda darlledwyr er mwyn dangos mwy o chwaraeon i'r anabl.

- ✓ Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff sy'n gweithio mewn addysg, tai cymdeithasol, gofal, a gwaith ieuenctid o ran anghenion penodol grwpiau sy'n agored i niwed.
- ✓ Mabwysiadu polisi dim goddefgarwch ar droseddau casineb a bwlio.

- ✓ Cefnogi Balchder Cymru.
- ✓ Gweithio gyda sefydliadau cymunedol er mwyn helpu aelodau o aelwydydd ieithoedd lleiafrifol i wella eu sgiliau Cymraeg a/neu Saesneg, gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael blaenoriaeth.

YMGYSYLLTU Â CHYMUNEDAU FFYDD

- ✓ Gweithio gyda chymunedau ffydd i gefnogi cydlyniant cymunedol a threchu eithafiaeth.
- ✓ Cynnal cyfarfodydd mwy rheolaidd o'r Fforwm Cymunedau Ffydd.
- ✓ Parchu hawl pobl ffydd i wisgo symbolau crefyddol yn y gweithle.
- ✓ Codi proffil moeseg, athroniaeth a chrefydd yn y cwricwlwm ysgol.

- ✓ Parhau i ariannu gwasanaethau caplaniaeth o fewn y GIG yng Nghymru.
- ✓ Adolygu canllawiau gofal ysbrydol ar gyfer y GIG yng Nghymru a datblygu canllawiau ar gyfer lleoliadau gofal eraill.
- ✓ Datblygu strategaeth ar gyfer treftadaeth grefyddol Cymru.

CEFNOGI ATAL TROSEDDU

- ✓ Ariannu menter ledled Cymru er mwyn helpu i recriwtio Cwnstabiliaid Cynorthwyol.
- ✓ Cefnogi rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a gweithio i wireddu eu potensial wrth fynd i'r afael â throedd.

- ✓ Gwrthwynebu datganoli plismona yng Nghymru, er mwyn diogelu uniondeb strategaethau atal troseddau trawsffiniol.
- ✓ Parhau i gefnogi rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau o ran goruchwyllo blaenoriaethau plismona lleol, fel dull o rymuso cymunedau i leisio barn uniongyrchol ar y blaenoriaethau hynny.

SICRHAU HUNANIAETH CYMRU

Mae gan gymunedau unigol Cymru draddodiadau balch, cyfoethog yn ogystal â diwylliant a hanes a rennir.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am helpu i gynnal treftadaeth Cymru a helpu unigolion i'w chefnogi, ei dathlu a gofalu amdani. Mae treftadaeth unigryw Cymru yn helpu i egluro lle pobl Cymru yn y byd.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae hefyd mewn datblygu creadigrwydd. Gall y celfyddydau a diwylliant helpu i feithrin


unigoliaeth, roi llwyfan i dalent ac ysgogi chwilfrydedd a meddwl yn feirniadol. Mae angen syniadau newydd ar Gymru ac mae angen i bob un ohonom feddwl yn greadigol ynghylch sut y gallwn droi heriau'n gyfleoedd.

Ym marn y Ceidwadwyr Cymreig, mae diwylliant a threftadaeth Cymru yn cynnig cyfleoedd sylweddol i sicrhau economi, adfywio cymunedol a lles ein cenedl. Mae chwaraeon hefyd yn creu diben cyffredin a'r awydd i gystadlu sydd mor werthfawr i genedl uchelgeisiol.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMRU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Rhoi gwerth ar ein diwylliant a'n treftadaeth

- ✓ Cyfuno deddfwriaeth treftadaeth, gan gyflwyno cofrestrau lleol er mwyn diogelu adeiladau a mannau sy'n bwysig i hunaniaeth leol a chosbau cryfach am halogi cofebau rhyfel.
- ✓ Cyflwyno 'Hawl i Gynnig', gan alluogi cymunedau i ddiogelu asedau sy'n bwysig i hunaniaeth leol a chyflwyno hyfforddiant a chymwysterau gwirfoddol er mwyn dod yn gyfrifol am asedau treftadaeth.
- ✓ Cynorthwyo'r sector amgueddfeydd i arddangos eitemau sy'n bwysig i dreftadaeth Cymru sydd ar fenthg yn yr hirdymor.
- ✓ Parhau i gynnig mynediad am ddim i amgueddfeydd cenedlaethol, gan ganiatáu disgrisiwn pellach i godi tâl am arddangosfeydd mawr penodol.
- ✓ Sefydlu Amgueddfa Filwrol Cymru a leolir ar sawl safle.
- ✓ Ystyried y buddiannau i'r amgylchedd hanesyddol o symud Cadw o reolaeth Llywodraeth Cymru.
- ✓ Cefnogi'r syniad o gyflwyno Gŵyl Banc Dydd Gŵyl Dewi.
- ✓ Grymuso grwpiau cymunedol i chwarae rhan fwy amlwg yn y gwaith o redeg rhwydweithiau llyfrgell lleol.
- ✓ Adolygu effaith economaidd ac adfywio diwylliant a threftadaeth Cymru er mwyn datblygu strategaeth newydd.
- ✓ Hyrwyddo lleoliadau ffilm a theledu yng Nghymru i farchnadoedd rhyngwladol, gan gynyddu enw da byd-eang ein diwydiannau creadigol.
- ✓ Cynnal statws pynciau creadigol o fewn cwricwlwm Cymru.
- ✓ Sicrhau bod darparu mynediad am ddim i berfformiadau i blant ysgol yn un o amodau cyllid grant ar gyfer rhai cynrychiadau artistig neu arddangosfeydd.



- ✓ Atgyfnerthu dyletswydd statudol awdurdodau lleol i gyflawni cynlluniau strategol ar gyfer y celfyddydau a diwylliant, gan arwain at fwy o gyfleoedd i arddangos casgliadau celf sy'n eiddo i'r cyngor.
- ✓ Cefnogi ariannu'r Urdd, gan gydnabod pwysigrwydd mudiad ieuencid mwyaf Cymru i'n treftadaeth.
- ✓ Cyflwyno cynllun rhandaliadau er mwyn galluogi teuluoedd neu ysgolion i brynu offerynnau cerdd.
- ✓ Cefnogi astudiaeth ddichonoldeb o ganolfan celfyddydau rhyngwladol i Gymru.
- ✓ Cyflwyno presgripsiwn celfyddydol fel sy'n briodol i gleifion â salwch meddwl

Croesawu atebolrwydd mewn darlledu

- ✓ Datblygu dull o sicrhau bod darlledwyr cyhoeddus yn adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar eu gwaith mewn meysydd datganoledig ac yn cyflwyno tystiolaeth iddo.
- ✓ Ymgyrchu dros ddiogelu cyllid ac annibyniaeth weithredol a golygyddol S4C, a cheisio cyfleoedd i foderneiddio ei chylch gwaith drwy'r arolwg sydd ar ddod.
- ✓ Gweithio gydag S4C er mwyn nodi a manteisio ar farchnadoedd a ffrydiau incwm newydd.
- ✓ Gweithio i sicrhau y parheir i ddarlledu gemau Chwe Gwlad ar deledu lle nad oes rhaid talu.
- ✓ Ymgynghori â darlledwyr cyhoeddus er mwyn dangos mwy o chwaraeon merched a chwaraeon i'r anabl.

Hyrwyddo cyfleoedd a rhagoriaeth ym myd y campau

- ✓ Rhoi blaenoriaeth i ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru.
- ✓ Arwain cynnig i gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru yn 2026.
- ✓ Rhyddhau athrawon, gan eu galluogi i gynllunio a chynnal gwersi addysg gorfforol cyffrous ac arloesol sy'n gwneud chwaraeon yn hwyl.
- ✓ Diogelu meysydd chwarae ysgolion a chyfleusterau chwaraeon gyda'r nod o greu mynediad ehangach i'r gymuned y tu allan i oriau ysgol.
- ✓ Cyflwyno rhwydwaith o Genhadon Chwaraeon Cymru a wnaiff ysbrydoli pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chau bylchau mewn cyfranogiad.
- ✓ Ymgyrchu dros gynllun peilot ar gyfer manau sefyll diogel mewn stadia pêl-droed yng Nghymru.
- ✓ Sicrhau gwaddol yn dilyn cynnal rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA yn 2017 yng Nghaerdydd.
- ✓ Galluogi ysgolion i gynyddu oriau addysg gorfforol ac annog cystadleuaeth.

Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i'n treftadaeth a'n diwylliant. O dan Lafur, bu gostyngiad pryderus yn y defnydd o'r iaith. Mae angen i ni gefnogi pobl i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd, gan gynnwys yn broffesiynol, yn y cartref ac mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, ac ysbrydoli pobl i elwa ar fanteision amlieithrwydd.

Paul Davies

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod bod defnydd o'r Gymraeg yn amrywio ledled Cymru. Ni fydd ffyrdd o fwynhau buddiannau dwyieithrwydd yr un peth i bawb.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru. Fel iaith swyddogol, mae ganddi bresenoldeb sefydledig, sylweddol yn ein bywydau bob dydd. Yn ogystal ag agor drysau i rannau eraill o'n diwylliant, mae'n ased gwerthfawr yn y byd gwaith.

Mae cyflwyno hawliau Cymraeg yn newid pethau o ran rôl yr iaith o fewn gwasanaethau cyhoeddus a rhannau eraill o gymdeithas. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn sicrhau bod hawliau yn cael eu gorfodi mewn ffordd deg, sensitif a synhwyrol, ond rydym am weld y genhedlaeth nesaf mewn sefyllfa i fwynhau holl fuddiannau cenedl amlieithog.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

- ✔ Sicrhau bod plant yn dod i gysylltiad cynyddol ac ystyrlon â'r Gymraeg fel dull o gyfathrebu drwy gydol eu haddysg ffurfiol.
- ✔ Trawsnewid y strategaeth Cymraeg mewn addysg, gan helpu pob plentyn yng Nghymru i deimlo'n hyderus wrth gyfathrebu yn Gymraeg o'r oedran cynharaf a'u hannog i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r amgylchedd addysgol.
- ✔ Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn lleoliadau Dechrau'n Deg.
- ✔ Deddfu i atgyfnerthu swyddogaeth Cynlluniau Statudol Cymraeg mewn Addysg.
- ✔ Hyrwyddo'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac ystyried yr angen i ymestyn ei gylch gwaith.
- ✔ Lansio prosiect "Tipyn Bach" sy'n annog masnachwyr a defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ac sy'n achredu busnesau sy'n meithrin sgiliau Cymraeg staff.
- ✔ Hyrwyddo buddiannau gweithlu amlieithog.
- ✔ Datblygu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Busnes Cymraeg.
- ✔ Cynyddu cyfranogiad o ran y celfyddydau a chwaraeon i'r eithaf yn y gymuned fel cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- ✔ Parhau i gefnogi'r Urdd ac Eisteddfodau ledled Cymru, yn ogystal â gwaith Twf a Mudiad Meithrin.
- ✔ Gwneud Comisiynydd y Gymraeg yn fwy atebol drwy wneud y rôl yn un o benodiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



BYRSTIO SWIGEN BAE CAERDYDD

Mae datganoli go iawn yn ymwneud â grymuso cymunedau i gymryd mwy o reolaeth dros eu hardaloedd - nid canoli pŵer ym Mae Caerdydd.

I lawer o bobl yng Nghymru, mae llywodraeth ddatganoledig yn dal i fod yn rhy bell o'u bywydau bob dydd ac mae'n ymddangos fel ei bod wedi colli gafael ar realiti. Mae'r ffordd wastraffus a di-glem y mae'r Blaid Lafur wedi rheoli cyllideb flynyddol £15 biliwn Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'r canfyddiadau bod gweinyddiaeth Bae Caerdydd yn gwbl ynysig, heb

fod yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu pobl sy'n gweithio'n galed.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn rhoi terfyn ar drachwant Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau newid go iawn yn y ffordd y mae'r Cynulliad a'i weithrediaeth yn gweithredu, gan gyflwyno lefelau newydd o dryloywder ac adfer hyder ac ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru i alluogi pobl sy'n gweithio'n galed i gamu ymlaen mewn bywyd.

BYDD LLYWODRAETH GEIDWADOL YNG NGHYMURU YN GWNEUD Y CANLYNOL:

Adfywio'r ffordd mae gwleidyddiaeth yn gweithio


- ✓ Rhoi'r gorau i'r fflyd o gerbydau gweinidogol a ariennir gan y trethdalwr, ac annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.
- ✓ Torri cyflogau gweinidogol 10%, gan ddefnyddio'r arbedion i ariannu'r gwaith o gynnwys pobl ifanc yn y broses gwneud penderfyniadau.
- ✓ Torri costau rhedeg blynyddol Llywodraeth Cymru 20%.
- ✓ Sicrhau bod gan y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin gynrychiolaeth Cabinet deg.
- ✓ Cyhoeddi mwy o ddogfennau nag erioed o'r blaen, gan leihau'r ddibyniaeth ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- ✓ Symud adran gyfan o Lywodraeth Cymru i'r gogledd.
- ✓ Cyhoeddi holl wariant Llywodraeth Cymru uwchlaw trothwyon penodol, a lleihau'r gwariant ar gardiau credyd Gweinidogion Cymru, gan wneud gwariant cyhoeddus yn fwy tryloyw nag erioed.
- ✓ Ymrwmo i gyhoeddi adroddiadau ar benderfyniadau'r cabinet ar-lein.
- ✓ Gwneud swyddi cynghorwyr arbennig yn fwy agored a thryloyw, gan wella hyder y cyhoedd yn y broses.
- ✓ Sicrhau mai'r Cynulliad Cenedlaethol, nid Llywodraeth Cymru, sy'n penodi comisiynwyr ac ombwdsmyrn, a hynny am gyfnodau sefydlog na ellir eu hailadrodd.
- ✓ Rhoi mwy o rôl graffu i'r Cynulliad Cenedlaethol wrth blismona'r cod gweinidogol.
- ✓ Cefnogi'r syniad o wneud cyfarfodydd llawn y Cynulliad yn hirach ac ystyried ymarferoldeb eistedd ar ddydd lau.
- ✓ Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol eraill er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am y rôl, hanes pleidleisio a chyfraniadau Aelodau'r Cynulliad.
- ✓ Gweithio gyda darlledwyr er mwyn sicrhau bod mwy o drafodion y Cynulliad yn cael eu darlledu.

“

Mae Cymru angen llywodraeth sy'n byrstio swigen Bae Caerdydd, ac sy'n grymuso cymunedau ym mhob rhan o Gymru. Drwy ymddiried mewn pobl, diogelu ein GIG, sicrhau rhagoriaeth mewn addysg a chreu 50,000 o swyddi o ansawdd, gallwn sicrhau newid go iawn i'n cenedl.

Andrew RT Davies

”



RHAGLEN DDEDDFU

Bydd Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn cyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol graidd ganlynol ar gyfer Cymru:

BIL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL:

Byddwn yn gwella amodau ac adnoddau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial. Credwn y dylai doniau a sgiliau unigryw pob plentyn gael eu cydnabod a'u meithrin. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- Egluro rôl ddeuol Cydgysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig, a Chydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ym maes addysgu.
- Gweithredu system ymyriadau cynnar, effeithiol a phriodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael pob cyfle i ddysgu'n effeithiol yn ôl eu hanghenion penodol.

BIL AWTISTIAETH:

Yn 2009, daeth y Ddeddf Awtistiaeth i rym fel y darn cyntaf o gyfraith a oedd yn benodol i anabled yn Lloegr. Bydd y Bil hwn yn rhoi terfyn ar y ffaith nad oes gan awtistiaeth hunaniaeth statudol yng Nghymru, a bydd yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn deall ac yn cymryd camau angenrheidiol fel bod plant ac oedolion ag awtistiaeth yn cael y cymorth amserol sydd ei angen arnynt.
- Sicrhau bod plant ac oedolion ag awtistiaeth yng Nghymru yn cael diagnosis amserol.
- Blaenoriaethu'r angen i wella dealltwriaeth o awtistiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol allweddol.

BIL SICRWYDD ECONOMAIDD A MENTER:

Bydd y Bil hwn yn helpu i greu'r amodau lle gall y sector preifat yng Nghymru ffynnu, gan arwain at swyddi medrus newydd a rhoi sicrwydd economaidd i deuluoedd sy'n gweithio'n galed ledled Cymru. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu banc datblygu rhanbarthol er mwyn galluogi busnesau bach i gael cyllid.
- Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu strategaeth a thargedau datblygu economaidd, gan gynnwys mesurau twf, cyflogaeth, caffael a sgiliau.

BIL IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:

Bydd y Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol gydweithredu, gan ddarparu system iechyd gwbl integredig am y tro cyntaf. Bydd yn:

- Sefydlu comisiwn trawsbleidiol ar dalu am ofal cynaliadwy hirdymor.
- Sefydlu Cronfa Arloesi mewn Gofal, ag amcanion clir, er mwyn hyrwyddo cydweithio rhwng byrddau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol.
- Arolygu'r cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, a'i gwneud yn ofynnol i'r arolygiaeth gyhoeddi dangosyddion perfformiad.

BIL MYNEDIAD AT DAI:

Byddwn yn helpu pobl ifanc i brynu eu cartref cyntaf, hyrwyddo symudedd yn y farchnad dai, a helpu pawb i ddod o hyd i'r cartref iawn iddynt. Bydd hefyd yn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- Rhoi'r dewis i gymdeithasau tai gynnig hawl i brynu i denantiaid lle byddai hyn yn helpu i gyflawni cynlluniau tai unigol.
- Diwygio cynllunio er mwyn annog adeiladu ar dir llwyd a thir cyhoeddus, gan gefnogi cynllun tir ar gyfer tai.
- Datganoli mwy o gyfrifoldebau cynllunio i gymunedau lleol, gan ailgydbwysu anghenion lleol â thargedau canolog.

BIL LLEOLIAETH A DINASYDDIAETH:

Am ormod o amser, mae Llywodraeth Cymru wedi methu â grymuso cymunedau lleol. Bydd y darn uchelgeisiol hwn o ddeddfwriaeth yn cynnig datganoli go iawn i Gymru, gan symud pŵer o lywodraeth ganolog ac i gymunedau lleol. Bydd yn gwneud y broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw ac yn seiliedig ar bŵer lleol, a bydd yn gwneud democratiaeth yn fwy hygyrch i'r bobl mae'n eu cynrychioli. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- Cyflwyno hawliau i gynnig a phrynu i gymunedau, gan roi'r cyfle i grwpiau lleol ddod yn berchen ar rai gwasanaethau a'u rhedeg.
- Cyflwyno rheolau newydd ar uwch gyflogau, gan adfer hyder y cyhoedd yn y system.
- Egluro'r defnydd o refferenda, gan hoelio eu lle yn y broses gwneud penderfyniadau a grymuso cymunedau lleol.
- Ymestyn cylch gwaith cynghorau lleol - datganoli pŵer yn agosach i bobl.
- Gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i roi sylw dyledus i hawliau plant.
- Gwneud pob comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, nid Llywodraeth Cymru.

BIL TRETH ISEL:

Disgwylir i Gymru gael pwerau hanesyddol i osod elfennau o'r gyfradd Treth Incwm yng Nghymru. Fel y blaidd treth isel, byddai Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru yn cyflwyno Bil a fydd yn gwneud y canlynol:

- Gosod dyletswydd ar lywodraethau Cymru yn y dyfodol i roi rhesymau clir dros newid cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan sicrhau y rhoddir rhesymau cynhwysfawr dros unrhyw newid.
- Sicrhau mai dim ond yn achos cyllideb y caiff Llywodraeth Cymru newid cyfraddau'r Dreth Incwm, gan roi sicrwydd i deuluoedd ac aelwydydd ledled Cymru.
- Cyflwyno mesurau newydd sy'n dangos sut mae treth wedi'i gwario ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Treth Incwm a'r Dreth Gyngor yng Nghymru.

BIL CYLLID A LLYWODRAETHU'R GIG:

Mae ein GIG yn drysor cenedlaethol yng Nghymru, ond mae angen trawsnewid ei systemau llywodraethu yn sylweddol er mwyn sicrhau bod pobl leol yn cael lleisio mwy o farn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu iechyd a'u lles. Bydd y Bil hwn yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu Comisiynwyr Iechyd a gaiff eu hethol yn uniongyrchol fel bod cymunedau yn cael lleisio llawer mwy o farn am benderfyniadau iechyd lleol sy'n effeithio arnynt.
- Diddymu'r system sy'n galluogi gweinidogion i benodi aelodau byrddau iechyd nad ydynt wedi'u hethol.
- Ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr Iechyd a phrif weithredwyr y GIG ymddangos gerbron pwyllgorau awdurdodau lleol ddwywaith y flwyddyn, a gerbron y Cynulliad Cenedlaethol unwaith y flwyddyn.

BIL DIOGELWCH Y GIG:

Rhaid i gleifion deimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu arolygiaeth gofal iechyd gwbl annibynnol ac iddi adnoddau gwell.
- Cyflwyno system graddio ysbytai 'sgoriau ar y drysau' er mwyn gwella dewis cleifion.
- Gwella proses gwynion y GIG, gan sicrhau bod cwynion yn cael eu datrys yn gyflym a bod sefydliadau yn dysgu gwarsi.

BIL HAWLIAU POBL HÛN:

Mae tua 800,000 o bobl hÛn yng Nghymru, sy'n haeddu pob cyfle i gael eu grymuso, cael hawliau cryfach a chael eu hanghenion wedi'u diwallu. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- Corffori hawliau pobl hÛn o fewn cyfraith Cymru ymhellach, gan osod dyletswydd sylw dyledus ar gyrff cyhoeddus.
- Gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau pobl hÛn ledled Cymru.
- Cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran, hyrwyddo heneiddio'n dda, ac ymgorffori lles pobl hÛn yn y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

BIL TWRISTIAETH:

Mae gan Gymru'r gallu i ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Bydd y Bil hwn yn helpu i sicrhau hynny drwy alluogi'r diwydiant i ddangos a datblygu pwysigrwydd y sector. Bydd yn:

- Symud Croeso Cymru o reolaeth Llywodraeth Cymru.
- Datblygu dull arbenigol, annibynnol o hybu twristiaeth yng Nghymru.
- Sicrhau rôl cymunedau lleol yn y gwaith o hyrwyddo profiad ymwelwyr.

BIL BYWYD GWYLLT:

Ar hyn o bryd, mae cryn dipyn o ddeddfwriaeth yn ymwneud â bywyd gwyllt Cymru. Yn aml mae wedi dyddio, ac yn gymhleth i gyrff gorfodi. Bydd y Bil hwn yn gwneud y canlynol:

- Cyfuno a diweddarau llawer o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bywyd gwyllt Cymru, gan gynnwys ei ddiogelu a'i reoli.
- Helpu cyrff gorfodi i ymdrin â throseddau amgylcheddol, gan ddiweddarau'r gyfraith sydd yn aml yn ganrifoedd oed, yn gymhleth ac yn methu â delio ag iechyd a lles anifeiliaid yn ddigonol.
- Egluro cyfrifoldebau'r cyhoedd mewn perthynas â bywyd gwyllt.